



CYNGOR TREF Y
RHYL
TOWN COUNCIL

Hoffai Cyngor Tref y Rhyl ddiolch i Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru Mark Polin a'i gydweithwyr am fynychu cyfarfod neithiwr/heno.

Fel cynghorwyr, rydym ar adegau yn derbyn pryderon gan aelodau'r cyhoedd ar amrywiol faterion. Fel cyngor rhagweithiol, sy'n meddwl am y dyfodol, rydym bob amser yn ceisio gweithredu'n gyflym i helpu ein trigolion a rhoi iddynt y cymorth maent ei angen.

Yn ddiweddar, bu pryder ynglŷn â throsedd mewn rhai ardaloedd yn y Rhyl, nifer y troseddau difrifol honedig, a sut mae materion o'r fath yn cael eu trin. Yn hyn o beth, mae'r cyngor yn rhannu'r pryderon hyn.

Mae'r cynghorwyr yn cael gwybod am ddigwyddiadau honedig yn eu wardiau ond, o ystyried digwyddiadau yn ddiweddar, roeddem yn teimlo ei bod yn briodol trafod y rhain gyda'n gilydd fel cyngor gyda'r Prif Gwnstabl.

Wrth wneud hyn, nodwyd bod rhai materion a chynnydd mewn troseddau yn broblemau a rennir yn genedlaethol. Rydym hefyd yn cydnabod bwriad Heddlu Gogledd Cymru wrth barhau i dargedu grwpiau troseddu cyfundrefnol a gwthio am gollfarniadau. Gwerthfawrogir hefyd waith Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng nghymunedau'r Rhyl a buasem yn croesawu partneriaeth gryfach wrth symud ymlaen.

Nid yw'r Rhyl yn wahanol i unrhyw dref fawr, gan y bydd wastad materion anodd i'w trin, ond yn bennaf mae'n rhywle lle mae llawer o bobl dda yn gweithio'n galed i adeiladu bywyd iddyn nhw eu hunain a'u teuluoedd. Mae llawer i edrych ymlaen ato yn y Rhyl a'n dymuniad ni yw canfod atebion hirdymor i'r problemau sy'n ein wynebu.

Gobeithiwn yn fawr y bydd Heddlu Gogledd Cymru yn gweithredu ar bryderon y cyngor a cheisiwn sicrhau trigolion y byddwn yn parhau i weithio ar eu rhan nhw i sicrhau bod y Rhyl yn lle diogel i fyw a gweithio ynddo. Yn olaf, hoffem ei gwneud yn glir nad oes lle i droseddu yn ein tref; ni fydd lle i guddio i rai sy'n dymuno cylfawni troseddau a byddwn ni, fel cyngor, yn parhau i wthio am atebion.

Diwedd

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Chyngor Tref y Rhyl ar 01745 331114.

